

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu)

Mawrth 2021

## 1. Cefndir

### Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu) Llywodraeth y DU

- Cyflwynwyd y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu)<sup>1</sup> ('y Bil') yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarllenid cyntaf ar 5 Chwefror 2020. Mae'n Fil Aelod Preifat a gefnogir gan Lywodraeth y DU, wedi'i noddi gan Chris Loder AS.<sup>2</sup>
- Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil, a baratowyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yn nodi:

“Mae'r Bil yn cynyddu'r gosb uchaf am droseddau penodol sy'n ymwneud â lles anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gwneud hynny drwy estyn y gosb uchaf bresennol, a bennir yn adran 32 o Ddeddf Llesiant Anifeiliaid 2006, o chwe mis a/neu ddirwy ddiderfyn i gosb o bum mlynedd a/neu ddirwy ddiderfyn. Bydd y troseddau hyn felly yn brofadwy, a gellir eu clywed yn Llys yr Ynadon neu yn Llys y Goron.”<sup>3</sup>

<sup>1</sup> [Bil Lles Anifeiliaid \(Dedfrydu\)](#) (Bil 14 2019-21), Chwefror 2020

<sup>2</sup> Cyflwynwyd bil tebyg, y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu a Chydnabod Ymdeimlad), yn Senedd y DU ym mis Mehefin 2019 ond ystyriwyd ei fod wedi cwmpo yn dilyn addoedi'r Senedd ar 8 Hydref 2019. Cyflwynwyd y Bil hwnnw eto ar 15 Hydref 2019 ond fe gwmpodd yn dilyn y diddymiad cyn Etholiad Cyffredinol mis Rhagfyr 2019.

<sup>3</sup> Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu) [Nodiadau Esboniadol](#), Chwefror 2020



**3.** Trafodwyd y Bil mewn Pwyllgor Biliau Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin ar 3 Chwefror 2021 a chyflwynwyd adroddiad arno heb ei ddiwygio. Cwblhaodd y Bil ei hynt trwy Dŷ'r Cyffredin ar 12 Mawrth a chafodd ei ddarllenid cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi yr un diwrnod.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**4.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol oherwydd bod darpariaethau yn y Bil yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu'n dod o fewn ei chymhwysedd.

**5.** Ar 17 Chwefror 2021, gosododd Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (y Gweinidog), Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd<sup>4</sup> (y Memorandwm) mewn perthynas â'r Bil.

**6.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig adrodd ar y Memorandwm erbyn 25 Mawrth 2021.<sup>5</sup>

Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

---

**7.** Mae paragraffau wyth i 14 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau yn y Bil y bydd angen cydsyniad yn eu cylch, sef cymal 1 a chymal 2.

**8.** Mae Atodiad A o'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn nodi bod Llywodraeth y DU hefyd yn ystyried bod angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymalau 1 a 2 o'r Bil.<sup>6</sup>

**9.** Mae cymal 1 o'r Bil (Dull treial a'r gosb lymaf am dramgwyddau penodol sy'n ymwneud â lles anifeiliaid) yn diwygio adran 32 o *Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006* (Deddf 2006) (Pwerau ar ôl euogfarn: Carchar neu ddirwy).

**10.** Mae'r Memorandwm yn nodi bod adran 32(1) o Ddeddf 2006 yn darparu mai 51 wythnos o garchar a/neu ddirwy lefel 5 fydd y gosb uchaf am droseddau penodol.

---

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu), Chwefror 2021

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Busnes, Yr amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu), Chwefror 2021

<sup>6</sup> Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu), Nodiadau Esboniadol, Atodiad A.

---

- 11.** Yn ymarferol, mae hwn yn gosb uchaf o chwe mis a dirwy ddiderfyn. Y rheswm am hyn yw am fod adran 32(5) yn nodi cosb uchaf o chwe mis ar gyfer pob trosedd a gyflawnwyd cyn cychwyn adran 281(5) o *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003* (Deddf 2003). Hyd yma, nid yw adran 281 o Ddeddf 2003 wedi ei chychwyn.
- 12.** Mae cymal 1 o'r Bil yn newid uchafswm y gosb am y troseddau a ganlyn yn unig:
- achosi dioddefaint diangen (adran 4, Deddf 2006);
  - anffurfio anifail mewn modd nad yw wedi'i esemptio (adran 5, Deddf 2006);
  - torri cynffon ci ac eithrio pan ganiateir hynny (adran 6(1) a 6(2), Deddf 2006);
  - rhoi gwenwyn i anifail (adran 7, Deddf 2006);
  - bod ynghlwm wrth frwydr anifeiliaid (adran 8, Deddf 2006).
- 13.** Cedwir y gosb uchaf bresennol os caiff y troseddwr euogfarniad ddiannod. Fodd bynnag, gall troseddwr sydd wedi'u cael yn euog mewn treial trwy ddiad gael cosb uwch o hyd at 5 mlynedd o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn.
- 14.** Nid oes gan Lysoedd Ynadon y pŵer i roi cosb o fwy na chwe mis. Roedd Adran 154(1) o Ddeddf 2003 yn cynyddu uchafswm y ddedfryd o garchar y gallai llys ynadon ei rhoi i 12 mis. Caiff adran 154(1) ei diddymu gan *Ddeddf Dedfrydu 2020* (Deddf 2020) ond mae darpariaeth gyfatebol wedi'i chynnwys ym mharagraff 24(2) o Atodlen 22 i Ddeddf 2020. Bydd adran 32(4A) o Ddeddf 2006, a fewnosodir gan gymal 1 o'r Bil, yn sicrhau bod y cosbau priodol ar gael i lysoedd ynadon hyd nes y bydd y darpariaethau perthnasol yn cychwyn.
- 15.** Mae cymal 2 (Cwmpas, cychwyn a theitl byr) yn darparu i'r Bil gwmpasu Cymru a Lloegr ac y daw'r Bil i rym ddeufis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Mae'n nodi nad yw'r diwygiadau y mae'r Bil yn eu gwneud yn gymwys i droseddau a gyflawnwyd cyn i'r Bil ddod i rym. Mae cymal 2 hefyd yn pennu teitl byr y Bil.
- 16.** Mae paragraff 15 o'r Memorandwm yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros gredu ei bod yn briodol gwneud darpariaeth yn y Bil ar gyfer Cymru:
- “Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn am resymau amseru a chydlynu. Mae darpariaethau'r

Bil yn cyd-fynd ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru o ran hybu lles anifeiliaid. Bydd bwrw ymlaen â hwy yn y Bil DU hwn yn golygu y gellir cosbi'r troseddau creulondeb mwyaf difrifol a gyflawnir i anifeiliaid yng Nghymru ar yr un lefel â'r rhai yn Lloegr.”<sup>7</sup>

**17.** Daw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r casgliad a ganlyn:

“Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn gan y byddai'n sicrhau bod trefn ddedfrydu gyson yng Nghymru a Lloegr ac y byddai'n rhoi eglurder i'r asiantaethau gorfodi, y Llysoedd ac i'r cyhoedd.”<sup>8</sup>

## 2. Trafodaeth y Pwyllgor

**18.** Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 8 Mawrth 2021.<sup>9</sup>

### Ein barn ni

**19.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1 a 2 o'r Bil. Rydym hefyd yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru pam y mae'n credu ei bod yn briodol gwneud darpariaeth i Gymru yn y Bil.

**20.** Nodwn, er i'r Bil gael ei gyflwyno i Senedd y DU ym mis Chwefror 2020, na chafodd y Memorandwm ei osod tan fis Chwefror 2021. Wrth nodi'r ffaith hon, hoffem dynnu sylw at Reol Sefydlog 29.2(i), sy'n nodi bod yn rhaid i aelod o Lywodraeth Cymru osod Memorandwm mewn perthynas ag “unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol pan y'i cyflwynir i'r Tŷ cyntaf, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl ei gyflwyno”.<sup>10</sup>

**21.** Hefyd hoffem dynnu sylw at sylwadau a wnaethom yn ein hadroddiad ar Femorandwm Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaeth)<sup>11</sup> gan eu bod yn berthnasol i'n hystyriaeth o'r Memorandwm hwn. Yn yr adroddiad hwnnw, fe wnaethom fynegi ein siom na welodd Llywodraeth Cymru achos dros

---

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu), paragraff 15

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu), paragraff 17

<sup>9</sup> [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 8 Mawrth 2021](#)

<sup>10</sup> [Rheolau Sefydlog Senedd Cymru](#), Tachwedd 2020

<sup>11</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Anifeiliaid \(Anifeiliaid Gwasanaethu\)](#), Chwefror 2019

gyflwyno ei deddfwriaeth ei hun, na'r cyfle i wneud hynny, yn enwedig gan fod y Gweinidog wedi datgan bod lles anifeiliaid yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru, sy'n bwynt a ailadroddwyd ym mharagraff 15 o'r Memorandwm.

**22.** Rydym felly yn pryderu ynghylch y pwyntiau i gloi a wnaed ym mharagraff 17 o'r LCM, yr ydym yn tynnu sylw atynt ym mharagraff 17 o'r adroddiad hwn. Yn ein barn ni, mae'r dadleuon a nodir ym mharagraff 17 o'r LCM yn tansilio'r pwerau sydd gan y Senedd a Gweinidogion Cymru. At hynny, mae'n amddifadu'r Aelodau etholedig o'r Senedd rhag cael ymgysylltu â dinasyddion ynghylch y ddeddfwriaeth a mynd ati'n unol â hynny i geisio gwella'r ddeddfwriaeth ar sail y gwaith ymgysylltu hwn.

**23.** Mae'n destun pryder nad yw Llywodraeth Cymru yn teimlo y gall gyflwyno Bil byr er mwyn deddfu mewn maes y mae'n ei ystyried yn flaenoriaeth. Fel y gwnaethom ni ei ddweud yn ein hadroddiad ar y Memorandwm ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaeth), mae cenhedloedd yn y DU eisoes wedi deddfu ar gyflymder gwahanol ar faterion eraill<sup>12</sup> ac, ar sawl achlysur, mae'r Senedd a Gweinidogion Cymru wedi arwain y ffordd o ran deddfu yn gyntaf ar ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.<sup>13</sup> Nid ydym wedi ein perswadio gan ddadl sy'n ymddangos fel ei bod wedi'i seilio ar gamsyniad bod angen i bob un o genhedloedd y DU ddeddfu yn yr un modd ac ar yr un pryd.

**24.** Yn ein hadroddiad diweddar ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar Fil yr Amgylchedd<sup>14</sup>, gwnaethom nodi pwynt cyfansoddiadol pwysig, fel a ganlyn.

**25.** Mae Bil Llywodraeth Cymru nad yw wedi cael ei basio ar ddiwedd Senedd yn cwmpo. Fodd bynnag, ymddengys bod ein Rheolau Sefydlog yn dawel o ran yr hyn sy'n digwydd i Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â Biliau'r DU nad ydynt wedi'u pasio yn Senedd y DU cyn diwedd Senedd.

**26.** Rydym yn yn ailadrodd y farn a fynegwyd gennym yn yr adroddiad diweddar hwnnw. Fel mater o egwyddor, pe bai Llywodraeth newydd Cymru yn dewis parhau i geisio cydsyniad y Senedd ar gyfer darpariaethau ym Mil y DU nad yw wedi'i basio yn Senedd y DU cyn etholiad cyffredinol y Senedd, credwn y byddai'n briodol i Lywodraeth newydd Cymru gyflwyno memorandwm cydsyniad

---

<sup>12</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaeth), Chwefror 2019

<sup>13</sup> Er enghraifft, mewn perthynas â rhoi organau, coleri trydan a bagiau cludo untro.

<sup>14</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru \(Memorandwm Rhif 2\) ar Fil yr Amgylchedd](#), Chwefror 2021

---

deddfwriaethol newydd sy'n cwmpasu'r holl ddarpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer. Byddai'r dull hwn yn galluogi holl Aelodau'r Chweched Senedd a phwyllgorau perthnasol, ar ôl eu sefydlu, i ystyried cydsyniad o'r newydd a dod i benderfyniad gwybodus yn seiliedig ar yr holl wybodaeth berthnasol.